# REES, REES ARTHUR ('Rhys Dyfed '; 1837 - 1866), bardd



**Enw:** Rees Arthur Rees
**Ffugenw:** Rhys Dyfed
**Dyddiad geni:** 1837
**Dyddiad marw:** 1866
**Rhiant:** Rhys Rees
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Barddoniaeth
**Awdur:** Moelwyn Idwal Williams

Ganwyd 1837 yn Felin Brithdir, Penbryn, Sir Aberteifi, mab Rhys Rees. Daeth ymlaen yn dda yn yr ysgol, yn enwedig mewn mesuroniaeth. Aeth yn brentis i fasnachdy J. M. Jones, Rhydlewis, ac ymhen rhai blynyddoedd aeth i Lerpwl, ac oddi yno i Lundain. Manteisiodd ar bob cyfle i'w ddiwyllio ei hun a daeth yn feistr ar y Saesneg, gan gyfansoddi barddoniaeth a rhyddiaith yn yr iaith honno. Yn 1860 gwaelodd ei iechyd a bu raid iddo aros gartref. Enillodd lawer o wobrwyon eisteddfodol. Cipiodd y wobr yn eisteddfod Llandudno (1864) am farwnad ' Carn Ingli,' a daeth yn ail i ' Glan Cunllo ' am gân ar ' Llywelyn ein Llyw Olaf ' yn eisteddfod y T  -gwyn-ar-Daf (1865). Bwriadai gyhoeddi cyfrol o'i farddoniaeth, ond ni bu fyw i wneuthur hynny. Bu farw 8 Gorffennaf 1866, a'i gladdu yn Llangunllo.

## Awdur

**Dr Moelwyn Idwal Williams**

## Ffynonellau


H. Blackwell, NLW MS 9271A: A Dictionary of Welsh Biography

*Enwogion Ceredigion* (1869), 201

*Notable Welshmen (1700–1900)* (1908), 293

*Yr Haul*, 1866, 256


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Rees Arthur Rees

## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20569280

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu